# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 1**

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

**PENNOD 2**

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

### 18 Adroddiadau ac argymhellion gan bennaeth y gwasanaethau democrataidd

(1) Rhaid i bennaeth gwasanaethau democrataidd ar gyfer awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio adroddiad neu wneud argymhelliad o dan adran 9(1)(h), anfon at bob aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod gopi o'r adroddiad neu o'r argymhelliad.

(2) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd ystyried, mewn cyfarfod a gynhelir heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon gyntaf at aelodau'r pwyllgor, unrhyw adroddiad neu argymhelliad a anfonir at aelodau'r pwyllgor o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 18.